# Canolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy - Cyfleusterau Gofal Plant




**Crèche Playdays**
Sesiwn achlysurol sydd ar agor i unrhyw blentyn rhwng 0 ac 8 oed. Mae angen cofrestru pob plentyn yn unigol. Nod y crèche hwn yw cynnig amgylchedd diogel bob amser yng Nghanolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy. Mae'r plant sy'n dod i'r crèche yn rhydd i fynd a dod yng nghwmni rhiant / gwarcheidwad yn ystod yr amseroedd a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Dydd Llun | 9.30am - 11.30am |
| Dydd Mawrth | 9.30am - 12.00 hanner dydd |
| Dydd Mercher | 9.30am - 12.00 hanner dydd |
| Dydd Iau | 9.30am - 12.00 hanner dydd |
| Dydd Gwener | 9.30am - 12.00 hanner dydd |

Yn anffodus, nid yw Crèche Playdays yn addas i blant dros 8 oed

Ni chaniateir mwy na 25 o blant ym mhob sesiwn

Rhaid i'r rhieni lenwi ffurflen gofrestru cyn y caiff plentyn ei dderyn i'r crèche

Ar ôl derbyn y ffurflen gofrestru, cewch ddod â'ch plentyn i'r crèche, ond y cyntaf i'r felin fydd hi oni bai eich bod yn neilltuo lle ymlaen llaw.

Gobeithio y bydd eich plentyn yn mwynhau dod i sesiynau Crèche Playdays – gwnawn ein gorau i sicrhau y bydd yn mwynhau bob munud. Os oes gennych unrhyw ymholiadau mae croeso ichi gysylltu â mi, Goruchwyliwr y Crèche ar 01244 845440



**Trefn y dydd a'r gweithgareddau yn y crèche**

9.30a.m. Crèche yn agor. Croesawu'r plant a'r rhieni.

10.30a.m. Egwyl – diod a thamaid i'w fwyta i'r plant.

Dewis gweithgareddau:- bydd y staff yn cynnig gwahanol weithgareddau i'r plant drwy gydol y sesiwn.

**Celf a Chrefft**
- Peintio
- Tynnu llun
- Torri a phastio
- Brithwaith
- Toes
- Tywod a Dŵr etc.

**Hefyd ar gael**
- Teganau gwthio
- Si-sô
- Llithren
- Trampolîn
- Ceir a beics

Caiff y plant gyfle i gael amser tawel neu i orffwys yn ein Cornel Ddarllen. Mae llawer o lyfrau ar gael i blant o bob oed. Mae gennym hefyd Dŷ Bach Twt gyda chegin, gwely, bwyd cogio a llestri. Mae blwch dillad, doliau a phramiau hefyd ar gael.

Pan fydd y tywydd yn gynnes gall y plant chwarae y tu allan yn ddiogel.

**Crèche - Y Drefn Gwyno**

Os yw'r gofal a gaiff eich plentyn yn peri pryder i chi, bydd Goruchwyliwr/staff y creche yn fodlon eu trafod â chi ar adeg gyfleus, pan na fydd angen amharu ar yr amser sydd gael gyda'r plant.

Byddwn yn gwrando ar unrhyw bryderon, yn eu cymryd o ddifrif, ac yn cymryd unrhyw gamau priodol. Byddwn yn gobeithio medru datrys unrhyw broblem yn gyfeillgar drwy drafodaeth. Byddwn yn ymchwilio i bob cwyn a chewch ymateb gennym.

Os oes gennych unrhyw bryderon nad ydych yn fodlon eu trafod, neu os nad ydych yn hapus â'r canlyniad, dylech gysylltu â'r Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn y cyfeiriad a ganlyn:-

ASGGC Rhanbarth Gogledd Cymru
Swyddfeydd y Llywodraeth
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ

Ffôn: 01352 707900